ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales

Statistical Article
Erthygl Ystadegol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Amcangyfrifon o'r angen am dai yng Nghymru ar lefel genedlaethol a rhanbarthol (yn seiliedig ar 2018)[1]

## Cefndir

Rhydd yr erthygl ystadegol hon amcangyfrifon sy'n seiliedig ar 2018 o'r angen cyffredinol am dai ychwanegol yng Nghymru rhwng 2018/19 a 2037/8. Mae amcangyfrifon o'r angen am dai yn chwarae rhan allweddol wrth flaengynllunio ar lefel genedlaethol a lefel ranbarthol a chânt eu defnyddio i lywio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a datblygu polisi tai. Ceir amcangyfrifon o'r galw am dai o ran deiliadaeth yng ngwanwyn 2019.

Cafodd yr amcangyfrifon blaenorol o'r angen am dai a'r galw am dai eu llunio gan y diweddar Alan Holmans a'u cyhoeddi gan y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru ym mis Hydref 2015, ac roeddent yn seiliedig ar amcanestyniadau aelwydydd yn seiliedig ar 2011. Ers hynny, rydym wedi cyhoeddi amcanestyniadau aelwydydd yn seiliedig ar 2014, felly mae'r amcangyfrifon blaenorol yn hen.

Mae'r ffigurau yn yr erthygl hon yn ymwneud â'r angen am dai **ychwanegol** ac maent yn seiliedig ar:

- amcangyfrifon o angen presennol nas diwallwyd
- angen newydd (amcanestyniadau aelwydydd yn seiliedig ar 2014). Nid rhagolygon mo amcanestyniadau aelwydydd, maent yn seiliedig ar dueddiadau blaenorol yn unig ac yn tybio y bydd y tueddiadau hyn yn parhau yn y dyfodol. Yn arbennig, nid yw'r fath amcanestyniadau yn ceisio cyfrif am effaith polisïau yn y dyfodol (er enghraifft, polisïau a allai ddylanwadu ar symudiadau'r boblogaeth) na digwyddiadau

I ddangos yr ansicrwydd sydd ynghlwm wrth y ffigurau hyn, caiff ystod o amcangyfrifon eu cyflwyno yn yr erthygl hon. Caiff yr amcangyfrifon eu hadolygu'n rheolaidd, wrth gael gwybodaeth fwy diweddar. Prif ofynion yr amcangyfrifon hyn yw llywio gwaith cynllunio a'r gwaith o ddatblygu polisi tai. Cyfyngir ar yr amcangyfrifon mewn sawl ffordd – rhoddir crynodeb isod gyda manylion ychwanegol yn Adran 1.

**Mae'r amcangyfrifon hyn yn ✓**

- Darparu amrywiaeth o angen am dai ychwanegol yn seiliedig ar dueddiadau blaenorol a'r data gorau sydd ar gael
- Sail i drafodaeth am benderfyniadau polisi


**Nid yw'r amcangyfrifon hyn yn ✗**

- Gallu darogan beth yn union sy'n mynd i ddigwydd yn y dyfodol
- Ffordd o bennu targed tai yng Nghymru
- Ceisio amcangyfrif nifer yr aelwydydd mewn llety anaddas

Dyddiad Cyhoeddi: 30 Ionawr 2019
Awdur: Melanie Brown, Ystadegau Tai, Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
E-bost: ystadegau.tai@llyw.cymru Ffôn: 0300 061 6029
**Twitter:** www.twitter.com/statisticswales | www.twitter.com/ystadegaucymru
[1]Ceir nodiadau ar y defnydd o erthyglau ystadegol ar ddiwedd y ddogfen hon.

## Canlyniadau allweddol

### Siart 1: Amcangyfrifon blynyddol cyfartalog o'r angen am dai ychwanegol (Cymru)




Ffynonellau: Amcanestyniadau aelwydydd sail 2014 LIC , Aelwydydd digartref mewn llety dros dro, Cyfrifiad 2011

- Mae'r ystod o amcangyfrifon yn amlwg yn ehangu wrth fynd ymhellach i'r dyfodol, gan adlewyrchu natur ansicr yr amcangyfrifon hyn.
- Amcangyfrifir, ar gyfartaledd, y bydd angen rhwng 6,700 a 9,700 o dai ychwanegol bob blwyddyn yn ystod y pum mlynedd gyntaf, gydag amcangyfrif canolog o 8,300 (caiff amcangyfrifon canolog o'r angen am dai eu cyfrifo o brif amcanestyniadau aelwydydd yn seiliedig ar 2014). Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys 1,100 o dai ychwanegol ar gyfartaledd bob blwyddyn i ddiwallu'r angen presennol nas diwallwyd (gweler adran 2.2).
- Mae'r amcangyfrifon o'r angen am dai ychwanegol yn lleihau'n raddol dros y 15 mlynedd nesaf, gan adlewyrchu'r ffaith bod y twf rhagamcanol mewn aelwydydd yn arafu o'r amcanestyniadau aelwydydd yn seiliedig ar 2014. Caiff amcanestyniadau aelwydydd eu llywio'n bennaf gan amcanestyniadau o'r boblogaeth. Mae hyn yn seiliedig ar angen newydd yn unig. At ddiben y gwaith hwn, tybir y caiff yr ôl-groniad o angen presennol nas diwallwyd ei glirio erbyn 2023/24.
- Erbyn canol yr 2030au, amcangyfrifir y bydd angen hyd at 6,500 o dai ychwanegol bob blwyddyn (gydag amcangyfrif canolog sydd islaw 4,000).

Mae'r cyhoeddiad cyntaf hwn yn cyflwyno amcangyfrifon o'r angen am dai ar lefel genedlaethol a lefel ranbarthol. Yn ystod gwanwyn 2019, bydd cyhoeddiad arall yn cyflwyno'r canlyniadau ar gyfer y pum mlynedd gyntaf, a rennir yn ôl deiliadaeth (perchentyaeth, rhentu preifat, rhentu canolraddol a rhentu cymdeithasol). Ategir yr erthygl ystadegol hon gan adroddiad ansawdd ac mae'r holl ddata ar gael ar StatsCymru.

**Cynnwys:**

1. Diffiniadau, Methodoleg a Chyfyngiadau
2. Canlyniadau
3. Camau Nesaf
4. Nodyn ar Erthyglau Ystadegol

# 1. Diffiniadau, methodoleg a chyfyngiadau

## 1.1 Diffiniadau

Mae'r termau angen a galw am dai yn cael eu defnyddio'n eang, ac yn aml fe'u defnyddir yn gyfnewidiol. Yng nghyd-destun y gwaith hwn, mae Blwch 1 yn diffinio'r termau hyn.

**Blwch 1: diffiniad o dermau**

**Angen cyffredinol am dai:** Yr angen presennol am dai ychwanegol nas diwallwyd a'r angen newydd am dai ychwanegol

**Angen presennol nas diwallwyd:** Nifer yr aelwydydd na allant gael mynediad at dai digonol **ac** a fyddai angen tai **ychwanegol**. Ni chaiff y rheini a all fod angen tai mwy priodol na fyddai angen tai ychwanegol arnynt eu cynnwys yn y dadansoddiad hwn

**Angen newydd:** Y nifer ragamcanol o aelwydydd newydd y bydd angen tai ychwanegol arnynt am gyfnod yn y dyfodol

**Galw am Dai:** Cysyniad a gaiff ei lywio gan y farchnad sy'n ymwneud â'r math o dŷ y bydd aelwyd yn ei ddewis yn seiliedig ar yr hyn sy'n well ganddo a'i allu i dalu. Caiff y galw am dai o ran y ddeiliadaeth fwyaf priodol ar gyfer yr aelwydydd hynny sydd angen tai ychwanegol ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2019.


Cyfrifir **angen newydd** fel y gwahaniaeth mewn amcanestyniadau aelwydydd o un flwyddyn i'r llall. At ddiben y gwaith hwn, daw o'r amcanestyniadau aelwydydd yn seiliedig ar 2014. Pan fo'r amcanestyniadau yn dangos dirywiad yn nifer yr aelwydydd o un flwyddyn i'r llall (felly bod ffigur negyddol o angen newydd) mae hyn wedi'i gapio ar sero drwy gydol y dadansoddiad.

Mae nifer o ymchwilwyr wedi ceisio pennu diffiniadau ac amcangyfrifon o **angen presennol** ac mae amrywiaeth o gysyniadau gwahanol. Yr hyn sy'n gyffredin rhwng yr ymchwil yw'r ffaith y nodir ei bod yn anodd cael gafael ar ddata priodol i Gymru y gellir llunio amcangyfrifon yn seiliedig arnynt. At ddiben y gwaith hwn, caiff angen presennol nas diwallwyd ei amcangyfrif ar sail dwy elfen (a drafodir ymhellach yn adran 2.2):

- Aelwydydd digartref mewn llety dros dro lle cymerwyd cipolwg ar ddiwedd mis Mehefin 2018
- Nifer yr aelwydydd oedd yn orlawn ac yn gudd (Cyfrifiad 2011)

Gyda'i gilydd, mae'r ddwy elfen hyn (angen newydd ac angen presennol nas diwallwyd) yn cynhyrchu amcangyfrifon ar gyfer yr angen cyffredinol am dai yng Nghymru fel y dangosir ym Mlwch 2 isod. Mae'r diffiniad llawn o'r ddwy elfen o angen presennol nas diwallwyd ar gael yn Atodiad A.

**Blwch 2: Cyfrifo'r angen cyffredinol am dai**




## 1.2 Methodoleg


Mae'r broses o amcangyfrif yr angen am dai yn gymhleth a gall gwmpasu sawl cysyniad eang. Er mwyn sicrhau bod yr amcangyfrifon a'r allbwn o'r gwaith hwn yn gadarn, yn dryloyw ac o'r radd flaenaf, cafodd grŵp technegol ei sefydlu o'r cychwyn cyntaf sy'n cynnwys arbenigwyr dadansoddol a pholisi o Lywodraeth Cymru a Llywodraeth Leol. Rôl y grŵp hwn oedd cynghori ar fethodoleg a materion technegol.

Ar ddechrau 2018, aeth dadansoddwyr Llywodraeth Cymru ynghyd â'r grŵp technegol ati i archwilio ac adolygu'r dulliau o gyfrifo'r angen am dai ledled y DU. Daeth y grŵp i'r casgliad y gallai adnodd yr Angen a'r Galw am Dai wedi'i ddatblygu gan Lywodraeth yr Alban (Saesneg yn unig) oedd ar ffurf Excel gael ei addasu ar gyfer Cymru.

Dull a methodoleg Llywodraeth yr Alban oedd sail cyfrifo'r amcangyfrif cyffredinol o'r angen am dai yn y cyhoeddiad hwn. Bydd yr adnodd Excel hefyd yn cael ei ddefnyddio i gyfrifo elfen deiliadaeth yr amcangyfrifon cyffredinol (y pum mlynedd gyntaf) yn y cyhoeddiad nesaf.

Caiff y canlyniadau eu cyflwyno ar lefel Cymru gyfan yn ogystal â lefel ranbarthol (tri rhanbarth: y gogledd, y canolbarth a'r de-orllewin, a'r de-ddwyrain). Caiff y rhanbarthau eu dangos yn y Map isod yn ogystal ag yn Atodiad B. Mae ffiniau cyfanredol awdurdodau lleol yn gyson â'r rhai a ddefnyddir yn y Cynllun Gweithredu ar yr Economi.

**Map 1: Ffiniau rhanbarthol economaidd Cymru**



## 1.3 Cyd-destun polisi - dull cynllunio rhanbarthol

Bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cynnwys polisïau cenedlaethol a rhanbarthol. Bydd yr amcangyfrifon rhanbarthol o'r angen am dai (a gyflwynir yn yr erthygl hon) yn ogystal â'r galw (a gyhoeddir yng ngwanwyn 2019) yn pennu'r cyfeiriad strategol ac yn ffurfio rhan o'r sail dystiolaeth i lywio'r gwaith o ddatblygu polisïau mewn Cynlluniau Datblygu Strategol a'r Fframwaith a fydd yn cefnogi gwaith cynllunio rhanbarthol ledled Cymru yn seiliedig ar dri rhanbarth:

- y gogledd;
- y canolbarth a'r de-orllewin;
- y de-ddwyrain

Mae hyn yn adeiladu ar y dull rhanbarthol a hyrwyddir drwy Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol gyda'r tri rhanbarth wedi'u rhannu â Cynllun Gweithredu ar yr Economi Llywodraeth Cymru.

## 1.4 Cyfyngiadau

Cyfyngir ar y canlyniadau a gyflwynir yn yr erthygl hon mewn sawl ffordd:


- Mae'r amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar amcanestyniadau aelwydydd yn seiliedig ar 2014. Rhydd amcanestyniadau aelwydydd amcangyfrifon o nifer yr aelwydydd a geir yn y dyfodol, ac maent yn seiliedig ar amcanestyniadau o'r boblogaeth ac amrywiaeth o dybiaethau ynghylch cyfansoddiad a nodweddion aelwydydd. Mae'r tybiaethau yn seiliedig ar dueddiadau yn y gorffennol ac maent yn tybio y bydd y tueddiadau hyn yn parhau yn y dyfodol. Bydd amcangyfrifon sydd ymhellach i'r dyfodol yn llai sicr. Nid yw'r amcangyfrifon yn ceisio adlewyrchu effaith polisïau na digwyddiadau yn y dyfodol, fel y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.
- Mae amcanestyniadau o'r boblogaeth ac aelwydydd yn defnyddio tueddiadau dros y pum mlynedd ddiweddaraf cyn y flwyddyn sylfaen er mwyn rhagdybio. Hefyd, darperir amcanestyniadau yn seiliedig ar gyfraddau mudo cyfartalog dros gyfnod o 10 mlynedd.
- Nid yw'r amcangyfrifon cyffredinol yn darged tai. Yn hytrach, maent yn mesur aelwydydd sydd angen tai ychwanegol, dros gyfnod penodol ac yn seiliedig ar amrywiaeth o dybiaethau.
- Mae'r fethodoleg ond yn ystyried aelwydydd sydd angen tai ychwanegol. Felly, nid yw'n ystyried yr aelwydydd hynny sy'n byw mewn llety anaddas ac sydd angen math gwahanol o dai, na dyheadau aelwydydd i fyw mewn llety gwahanol.
- Amcangyfrifir angen presennol nas diwallwyd ar sail y data gorau sydd ar gael. Cydnabyddwn fod hyn, ynghyd â'r cyfyngiad uchod, yn darparu darlun anghyflawn o angen presennol nas diwallwyd yng Nghymru a'i fod yn debygol o fod yn dangyfrif.
- Mae'r amcanestyniadau aelwydydd a ddefnyddir yn y ffigurau hyn yn amcangyfrif o angen newydd, yn seiliedig ar dueddiadau yn y gorffennol. Gall y tueddiadau hyn, i ryw raddau, gael eu dylanwadu gan argaeledd cartrefi h.y. os caiff mwy o gartrefi eu hadeiladu, gall y ffaith bod mwy o gartrefi ar gael arwain at greu mwy o aelwydydd. Mae'r gwrthwyneb hefyd yn wir – os caiff llai o gartrefi eu hadeiladu yna gall llai o aelwydydd gael eu ffurfio.
- Er ein bod yn cyflwyno amcangyfrifon ar lefel ranbarthol, mae cryn amrywiad mewn patrymau o ran yr angen newydd am dai (o amcanestyniadau aelwydydd) ac angen presennol o fewn pob rhanbarth. Lle bo modd, dangosir amrywiaeth yn y rhanbarthau gan ddefnyddio mapiau (ar lefel awdurdod lleol). Bydd amrywiad o fewn pob awdurdod lleol hefyd.

## 2. Canlyniadau

Rhydd y bennod hon yr amcangyfrifon o'r angen cyffredinol am dai ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Yn gyntaf, dengys canlyniadau'r ddwy elfen o angen cyffredinol (newydd a phresennol nas diwallwyd) a sut maent yn cyfuno i gynhyrchu'r amcangyfrifon terfynol.

### 2.1 Angen newydd

**Blwch 3: Cyfrifo'r angen cyffredinol am dai – angen newydd**





Angen newydd yw prif elfen amcangyfrifon o'r angen am dai ychwanegol yn y dyfodol. Caiff yr amcangyfrifon eu llywio gan newidiadau i angen newydd, sy'n seiliedig ar amcanestyniadau aelwydydd yn seiliedig ar 2014. Cyfrifir angen newydd fel y gwahaniaeth mewn amcanestyniadau aelwydydd o un flwyddyn i'r llall.

Mae amcanestyniadau aelwydydd yn seiliedig ar dueddiadau yn y gorffennol ac maent yn tybio y bydd y tueddiadau hyn yn parhau yn y dyfodol. Nid rhagolygon mohonynt. I ddangos yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â'r amcanestyniadau, caiff holl amrywiadau amcanestyniadau aelwydydd eu cynnwys.

Bydd yr adran hon yn edrych ar ganlyniadau amcanestyniadau aelwydydd yn seiliedig ar 2014 ac effaith hyn ar amcangyfrifon o angen yn y dyfodol. Mae amcanestyniadau aelwydydd yn ymwneud â'r pwynt canol blwyddyn.

**Siart 2: Amcanestyniadau aelwydydd yn seiliedig ar 2014 (Cymru)**




Ffynhonnell: Amcanestyniadau aelwydydd sail 2014

Dengys Siart 2 y prif amcanestyniadau aelwydydd yn seiliedig ar 2014 a phedwar amcanestyniad amrywiadol: amrywiolyn uwch, amrywiolyn is, mudo 10 mlynedd a dim mudo am 25 mlynedd hyd at 2039. Diffinnir yr amrywiadau isod:

- Mae'r prif amcanestyniad yn seiliedig ar dueddiadau diweddar yn y gorffennol o ran genedigaethau, marwolaethau, a mudo
- Mae'r amrywiolyn uwch o ran y boblogaeth yn seiliedig ar gyfraddau ffrwythlondeb uwch a chyfraddau marwolaeth is
- Mae'r amrywiolyn is o ran y boblogaeth yn seiliedig ar dybiaethau ynghylch cyfraddau ffrwythlondeb is a chyfraddau marwolaeth uwch
- Mae'r elfen dim mudo yn cyfateb i newid naturiol yn unig (genedigaethau a marwolaethau). Dengys y boblogaeth ragamcanol petai dim mudo i mewn nac allan yn y dyfodol
- Mae'r ffigur ar gyfer mudo 10 mlynedd yn seilio'r dybiaeth o ran mudo ar lefelau mudo cyfartalog dros gyfnod hwy o 10 mlynedd (mae amrywiadau eraill yn seiliedig ar y cyfnod 5 mlynedd mwyaf diweddar)

Mae'r holl amcanestyniadau aelwydydd yn dangos twf tebyg o ran aelwydydd i ddechrau. Yn y pum mlynedd gyntaf, mae'r newid blynyddol rhwng pob amcanestyniad yn gynnydd o 0.39 y cant - 0.63 y cant (cynnydd blynyddol o 5,200-8,500 o aelwydydd). Ar ôl hyn, mae'r amcanestyniadau amrywiadol yn dechrau ymwahanu.


O dan yr amrywiadau mudo uwch a 10 mlynedd, ymddengys fod y nifer ragamcanol o aelwydydd yn cynyddu'n raddol. O dan y prif amcanestyniadau ymddengys fod y twf mewn aelwydydd yn arafu ac o

dan yr amrywiolyn is mae'n dechrau dirywio erbyn diwedd cyfnod yr amcanestyniadau. Yn ystod pum mlynedd olaf yr amcanestyniadau, mae'r newid blynyddol rhwng pob amcanestyniad yn amrywio o ostyngiad o 0.05 y cant (dirywiad o 700 o aelwydydd) i gynnydd o 0.44 y cant (6,500 o aelwydydd ychwanegol), gydag ystod llawer ehangach nag ar ddechrau'r cyfnod.

Mae'r hyn a welir o ran amcanestyniadau aelwydydd rhanbarthol yn debyg, ond mewn rhai achosion mae'r tueddiadau uchod hyd yn oed yn fwy amlwg.

I roi hyn yn ei gyd-destun, roedd y gogledd yn cyfrif am 23 y cant o gyfanswm nifer yr aelwydydd, roedd y canolbarth a'r de-orllewin yn cyfrif am 29 y cant ac roedd y de-ddwyrain yn cyfrif am 48 y cant.

**Siart 3: Ystodau amcanestyniadau aelwydydd yn seiliedig ar 2014 (Rhanbarthol)**





Nodyn: Nid yw'r echelyn-y yn dechrau ar sero          Ffynhonnell: Amcanestyniadau aelwydydd sail 2014

Dengys Siart 3 ystod y nifer ragamcanol o aelwydydd ym mhob rhanbarth gan ddefnyddio'r gwahanol amcanestyniadau amrywiadol.

Mae amcanestyniadau aelwydydd yn y de-ddwyrain yn cynyddu'n gyflymach na'r ddau ranbarth arall. Mae'r ystodau is ar gyfer y canolbarth a'r de-orllewin, a'r gogledd, yn parhau'n wastad iawn ac yn dechrau dirywio tua diwedd y cyfnod rhagamcanol.

Cyfrifir aelwydydd newydd fel y gwahaniaeth mewn amcanestyniadau aelwydydd o un flwyddyn i'r llall. Er enghraifft, yr angen newydd rhwng canol 2020 a chanol 2021 (sy'n ymddangos fel 2020/21 yn y siartiau) yw cyfanswm nifer yr aelwydydd rhagamcanol yng nghanol 2021 llai nifer yr aelwydydd rhagamcanol yng nghanol 2020.

**Siart 4: Angen newydd – amcanestyniadau aelwydydd yn seiliedig ar 2014 (Cymru)**




Ffynhonnell: Amcanestyniadau aelwydydd sail 2014

Dengys Siart 4 yr angen newydd am dai yn ystod cyfnod amcanestyniadau aelwydydd yn seiliedig ar 2014. Mae'r dirywiad mewn angen newydd yn adlewyrchu'r twf arafach yn amcanestyniadau aelwydydd yn seiliedig ar 2014.

Mae angen newydd (yn seiliedig ar brif amcanestyniadau) yn lleihau yn 2019 cyn cynyddu eto yn 2021, gyda 7,500 o aelwydydd ychwanegol, cyn dirywio am weddill y cyfnod rhagamcanol.


Mae'r holl amcanestyniadau amrywiadol eraill yn dilyn patrwm tebyg iawn i'r prif amcanestyniad; gwelir angen newydd yn lleihau naill ai yn 2019 neu yn 2020 cyn cynyddu eto yn 2021 ac yna ddirywio. Mae hyn yn adlewyrchu tueddiadau mewn amcanestyniadau o'r boblogaeth.

Mae'r amcanestyniadau aelwydydd amrywiolyn is a dim mudo yn dirywio'n gyflym ac mae'r amrywiolyn is yn cyrraedd sero erbyn 2037. Mae hyn yn adlewyrchu lleihad yng nghyfanswm nifer yr aelwydydd rhagamcanol (amrywiad is) o 2037. Er bod y gwahaniaeth mewn amcanestyniadau aelwydydd o un flwyddyn i'r llall yn negyddol ar y cam hwn, mae'r ffigur hwn wedi'i gapio ar sero at ddiben y dadansoddiad hwn.

Fel y nodwyd ar ddechrau'r adran hon, angen newydd yw prif elfen amcangyfrifon ar gyfer tai ychwanegol, felly caiff y dirywiad a ddangosir yn siart 4 ei adlewyrchu yn y dirywiad ar gyfer tai ychwanegol.

Tra bod y canlyniadau a gyflwynir yn y cyhoeddiad hwn ar lefel genedlaethol a rhanbarthol, fel y trafodwyd ar ddechrau'r erthygl hon, bydd angen presennol ac angen newydd yn amrywio o fewn y tri rhanbarth. I ddangos hyn, mae'r map gwres isod yn dangos angen newydd ar lefel Awdurdod Lleol yn seiliedig ar brif amcanestyniadau yn seiliedig ar 2014 rhwng 2018/19 a 2022/23.


**Map 2: Twf blynyddol cyfartalog mewn amcanestyniadau aelwydydd (2018/19 – 2022/23)**




© Hawlfraint y Goron 2018
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru • ML/62/18.19
Rhagfyr 2018

## 2.2 Angen presennol nas diwallwyd

**Blwch 4: Cyfrifo'r angen cyffredinol am dai – presennol nas diwallwyd**




Er mai aelwydydd newydd sy'n llywio amcangyfrifon ar gyfer yr angen am dai yn y dyfodol gan mwyaf, elfen arall yw angen presennol nas diwallwyd. Mae'n anodd mesur yr angen presennol am dai ychwanegol nas diwallwyd yn gyson (er enghraifft, nid yw gwybodaeth o restrau aros tai cymdeithasol awdurdodau lleol yn cael ei chofnodi'n gyson ledled y wlad ac ni chaiff y wybodaeth ei choladu'n ganolog).

Ystyriodd y grŵp technegol ffynonellau data posibl a daeth i'r casgliad bod y ffynonellau a ddisgrifir isod yn gadarn ac yn addas at ddiben y gwaith hwn (er nad oeddent yn gyfredol o reidrwydd).

At ddiben y gwaith hwn rydym wedi nodi dwy agwedd ar angen presennol nas diwallwyd:

- Aelwydydd digartref mewn llety dros dro
- Aelwydydd gorlawn *a* chudd

Cydnabyddwn fod y rhain yn darparu darlun anghyflawn o'r rheini sydd angen tai ychwanegol, ac maent yn debygol o fod yn dangyfrif. Ni fyddai'r rheini nad oeddent yn cael eu diffinio'n aelwyd orlawn a chudd ond sydd angen tai ychwanegol yn cael eu nodi.

Daw nifer yr Aelwydydd Digartref mewn Llety Dros Dro o ddatganiad Digartrefedd Statudol chwarterol Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2018. Roedd cyfanswm o 2,142[2] o aelwydydd digartref mewn llety dros dro ar ddiwedd mis Mehefin 2018.

Daw nifer yr aelwydydd sy'n orlawn *ac* yn gudd (ceir y diffiniadau llawn yn Atodiad A) o dabl wedi'i gomisiynu (Saeseng yn unig) gan SYG sy'n seiliedig ar Gyfrifiad 2011. Er bod yr amcangyfrif yn hen efallai, roedd y grŵp technegol o'r farn mai dyma'r amcangyfrif gorau sydd ar gael ar hyn o bryd. Roedd cyfanswm o 3,503 o aelwydydd gorlawn **a** chudd yng Nghymru ar ddiwrnod y cyfrifiad yn 2011 fel y dangosir yn nhabl 1.

[2] Mae'r ffigur hwn wedi'i dalgrynnu i'r 3 agosaf

Mae'r ddwy elfen gyda'i gilydd yn rhoi amcangyfrif o'r angen presennol cyfredol yng Nghymru nas diwallwyd o 5,645 o aelwydydd.

**Tabl 1: Angen presennol nas diwallwyd**

| Ardal | Aelwydydd Cudd a Gorlawn | Aelwydydd Digartref mewn Llety Dros Dro (a) | Cyfanswm (b) |
|---|---|---|---|
| Y canolbarth a'r de-orllewin | 862 | 291 | 1,153 |
| Y gogledd | 735 | 507 | 1,242 |
| Y de-ddwyrain | 1,906 | 1,341 | 3,247 |
| **Cymru** | **3,503** | **2,142** | **5,645** |

Ffynonellau: Aelwydydd Digartref mewn Llety Dros Dro, Cyfrifiad 2011

(a) Mae'r broses rheoli datgelu yn gymwys i'r data. Mae'r holl ffigurau wedi'u talgrynnu i'r 3 agosaf.
O ganlyniad, gall fod gwahaniaeth rhwng nifer yr eitemau ar wahân a'r cyfanswm.
(b) Efallai na fydd cyfansymiau yn cyfateb oherwydd talgrynnu


Er mwyn cynnwys y ffigur cyffredinol o 5,645 o aelwydydd ag angen presennol nas diwallwyd yn yr amcangyfrifon o'r angen cyffredinol am dai ychwanegol, mae angen tybio sawl blwyddyn y byddai'n ei gymryd i glirio'r angen presennol am dai ychwanegol. Daeth y grŵp technegol i'r casgliad ei bod yn rhesymol tybio y dylai'r angen presennol gael ei glirio o fewn pum mlynedd.

Mae hyn yn golygu tybio y caiff un rhan o bump o'r holl angen presennol nas diwallwyd ei chlirio bob blwyddyn am bum mlynedd. Ar ddiwedd y cyfnod hwn y dybiaeth yw na fydd unrhyw ôl-groniad o angen presennol nas diwallwyd ond mae'n bosibl y byddai ôl-groniad newydd wedi cronni erbyn hynny. Byddai'r ffigurau hyn yn cael eu hadolygu a'u diweddaru ar y cam hwn.


Felly, mae pum mlynedd gyntaf yr amcangyfrifon (2018/19 - 2022/23) yn cynnwys angen newydd ac un rhan o bump o gyfanswm yr angen presennol nas diwallwyd.

Mae'r mapiau isod yn dangos y gyfradd fesul 10,000 o aelwydydd o aelwydydd digartref mewn llety dros dro (map 3) ac aelwydydd gorlawn a chudd (map 4) ym mhob awdurdod lleol.

**Map 3: Aelwydydd digartref mewn llety dros dro fesul 10,000 o aelwydydd**



**Map 4: Aelwydydd gorlawn a chudd fesul 10,000 o aelwydydd**





© Hawlfraint y Goron 2018
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru • ML/62/18.19
Rhagfyr 2018

### 2.3 Amcangyfrifon o'r angen am dai

Drwy gyfuno nifer yr aelwydydd newydd a'r angen presennol nas diwallwyd ceir amcangyfrifon o'r angen cyffredinol am dai. Ceir amcangyfrifon fesul blwyddyn, rhanbarth ac amrywiolyn amcanestyniadau aelwydydd ar StatsCymru.

**Blwch 5: Cyfrifo'r angen cyffredinol am dai – angen cyffredinol**





Rhydd yr adran hon amcangyfrifon o'r angen cyffredinol am dai yn gyntaf ar lefel Cymru gyfan ac yna mae'n archwilio amcangyfrifon rhanbarthol.

### 2.3.1 Canlyniadau cenedlaethol

Dengys Siart 5 ganlyniadau ar gyfer pum mlynedd gyntaf yr amcangyfrifon yn seiliedig ar amrywiadau gwahanol o'r amcanestyniadau aelwydydd. Dros y cyfnod hwn o bum mlynedd, tybir bod angen tai newydd i glirio un rhan o bump o'r ôl-groniad bob blwyddyn.

**Siart 5: Amcangyfrifon o dai ychwanegol am y pum mlynedd gyntaf (Cymru)**




Ffynonellau: Amcanestyniadau aelwydydd sail 2014 LIC , Aelwydydd digartref mewn llety dros dro, Cyfrifiad 2011

Dengys Siart 5 fod angen rhwng 7,200 a 9,700 o dai ychwanegol yn 2018/19, gydag amcangyfrif canolog o 8,300. Yn 2022/23 mae'r amcangyfrifon yn amrywio rhwng 6,300 a 9,700 (amcangyfrif canolog: 8,200).


Mae'r amcangyfrif canolog, yr amcangyfrif amrywiolyn uwch a'r gyfradd mudo 10 mlynedd yn dilyn yr un patrwm yn siart 5. Ceir dirywiad bach rhwng 2018/19 a 2019/20, a ddilynir gan gynnydd bach tan 2021/22 pan mae'r amcangyfrifon yn dechrau dirywio eto. Mae'r lefel uchaf yn 2021/22 yn gyson â'r lefel uchaf o ran angen newydd a drafodir drwy gydol yr erthygl hon.

Gwelir patrwm ychydig yn wahanol mewn perthynas â'r amcangyfrifon ar gyfer yr amrywiolyn is a dim mudo. Dim ond ar gyfer un flwyddyn y gwelir cynnydd; rhwng 2020/21 a 2021/22.

Ar ddiwedd y cyfnod a ddangosir yn siart 5, tybir na fydd ôl-groniad mwyach. Ar y cam hwn, byddai'r amcangyfrifon yn cael eu hadolygu a'u diweddaru.

Dengys Siart 6 y nifer gyfartalog o dai ychwanegol sydd eu hangen bob blwyddyn dros bob cyfnod o bum mlynedd hyd at 2037/38 gan dybio **nad oes ôl-groniad** o ran yr angen presennol nas diwallwyd ar ôl 2022/23.

**Siart 6: Amcangyfrifon blynyddol cyfartalog o'r angen am dai ychwanegol (Cymru)**




Ffynonellau: Amcanestyniadau aelwydydd sail 2014 LIC , Aelwydydd digartref mewn llety dros dro, Cyfrifiad 2011


Mae'r amcangyfrifon o'r angen am dai yn seiliedig ar bob amrywiad ar gyfer amcanestyniadau aelwydydd yn dirywio drwy gydol y cyfnod o 20 mlynedd. Yn ystod y pum mlynedd gyntaf (2018/19-2022/23) mae angen rhwng 6,700 a 9,700 (canolog: 8,300) o dai ychwanegol ac o ganol yr 2030au i'w diwedd mae'r amcangyfrifon yn amrywio hyd at 6,500 o dai ychwanegol (gydag amcangyfrif canolog sydd islaw 4,000).

Mae'r amcangyfrifon sy'n seiliedig ar yr amcanestyniadau aelwydydd amrywiolyn is yn dirywio'n gyflym. Mae'r dirywiad mewn amcangyfrifon o dai ychwanegol yn adlewyrchu'r twf arafach mewn aelwydydd yn amcanestyniadau aelwydydd yn seiliedig ar 2014 am fod y twf yn y boblogaeth yn arafu.

### 2.3.2 Canlyniadau Rhanbarthol

Dengys y tair siart nesaf yr angen blynyddol cyfartalog am dai ychwanegol fesul cyfnod o bum mlynedd ar gyfer pob un o'r tri rhanbarth (y gogledd, y canolbarth a'r de-orllewin, a'r de-ddwyrain). Fel o'r blaen, dim ond y cyfnod cyntaf (2018/19 - 2022/23) sy'n cynnwys yr elfen o angen presennol nas diwallwyd.


**Siart 7: Amcangyfrifon blynyddol cyfartalog o'r angen am dai ychwanegol (y gogledd)**




Ffynonellau: Amcanestyniadau aelwydydd sail 2014 LIC , Aelwydydd digartref mewn llety dros dro, Cyfrifiad 2011

- Yn ystod y pum mlynedd gyntaf (2018/19 i 2022/23) mae angen rhwng 1,000 a 1,800 o dai ychwanegol ar gyfartaledd bob blwyddyn yn y gogledd (gydag amcangyfrif canolog o 1,600).
- Erbyn canol yr 2030au i'w diwedd (2033/34 i 2037/38) mae'r amcangyfrifon yn amrywio o fod dim angen unrhyw dai ychwanegol (o dan amrywiolyn is a dim mudo) i hyd at 1,100 bob blwyddyn ar gyfartaledd (gydag amcangyfrif canolog o 400).


**Siart 8: Amcangyfrifon blynyddol cyfartalog o'r angen am dai ychwanegol (Y canolbarth a'r de-orllewin)**




Ffynonellau: Amcanestyniadau aelwydydd sail 2014 LIC , Aelwydydd digartref mewn llety dros dro, Cyfrifiad 2011

- Yn ystod y pum mlynedd gyntaf (2018/19 i 2022/23) mae angen rhwng 1,300 a 2,500 o dai ychwanegol ar gyfartaledd bob blwyddyn yn y canolbarth a'r de-orllewin (gydag amcangyfrif canolog o 2,000).
- Erbyn canol yr 2030au i'w diwedd (2033/34 i 2037/38) mae'r amcangyfrifon yn amrywio o fod dim angen unrhyw dai ychwanegol (o dan amrywiolyn is a dim mudo) i hyd at 1,300 bob blwyddyn ar gyfartaledd (gydag amcangyfrif canolog o 500).

**Siart 9: Amcangyfrifon blynyddol cyfartalog o'r angen am dai ychwanegol (y de-ddwyrain)**




Ffynonellau: Amcanestyniadau aelwydydd sail 2014 LIC , Aelwydydd digartref mewn llety dros dro, Cyfrifiad 2011

- Yn ystod y pum mlynedd gyntaf (2018/19 i 2022/23) mae angen rhwng 4,000 a 5,300 o dai ychwanegol ar gyfartaledd bob blwyddyn yn y de-ddwyrain (gydag amcangyfrif canolog o 4,700).
- Erbyn canol yr 2030au i'w diwedd (2033/34 i 2037/38) mae'r amcangyfrifon yn amrywio o 1,100 i 4,000 o dai ychwanegol bob blwyddyn ar gyfartaledd (gydag amcangyfrif canolog o 2,700).

Mae'r amcangyfrifon rhanbarthol yn dilyn patrwm cymharol debyg i ganlyniadau Cymru gyfan. Pethau allweddol i'w nodi:

- Gan ddefnyddio amcanestyniadau aelwydydd amrywiolyn is a dim mudo, amcangyfrifir na fyddai angen unrhyw dai ychwanegol yn y gogledd a'r canolbarth a'r de-orllewin (Siart 7 a Siart 8 yn y pedwerydd cyfnod o amser (2033/34-2037/38).
- Fel y nodir drwy gydol yr erthygl hon, mae'r amcangyfrifon o'r angen am dai ychwanegol yn dirywio dros amser ar gyfer pob amrywiolyn o'r amcanestyniadau aelwydydd ac ym mhob un o'r tri rhanbarth (gan adlewyrchu'r ffaith bod y twf mewn amcanestyniadau aelwydydd yn arafu).


### 2.4 Gwybodaeth gyd-destunol – anheddau newydd

Er nad targed tai yw'r amcangyfrifon hyn, mae'r adran hon yn trafod tueddiadau hanesyddol ym maes adeiladu tai yng Nghymru dros yr ugain mlynedd diwethaf. Diben hyn yw rhoi'r amcangyfrifon hyn yn eu cyd-destun.

Rhwng diwedd yr 1990au a dechrau'r 2000au, cafodd rhwng 8,000 a 9,000 o anheddau newydd eu hadeiladu yng Nghymru bob blwyddyn. Cyrhaeddodd hyn ei anterth yn 2006-07 gyda mwy na 9,300, cyn cwympo'n sydyn yn dilyn y dirywiad economaidd a ddangosir yn Siart 10.

Ar ddechrau'r 2010au, cafodd tua 5,500 eu cwblhau bob blwyddyn. Yn raddol, cynyddodd y nifer hon i 6,900 yn 2015-16, cyn lleihau ychydig yn yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

**Siart 10: Nifer yr anheddau newydd a gwblhawyd yng Nghymru (1997-98 i 2017-18)**




Ffynhonnell: Anheddau newydd a gwblhawyd LlC

### 2.5 Cymhariaeth ag amcangyfrifon blaenorol

Mae'r amcangyfrifon hyn yn cymryd lle'r [amcangyfrifon blaenorol o'r angen am dai yng Nghymru](#) a gynhyrchwyd gan Alan Holmans ac a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru yn 2015. Defnyddiodd yr amcangyfrifon a gyhoeddwyd gan y Sefydliad amcanestyniadau aelwydydd yn seiliedig ar 2011.


Nid oedd yr amcangyfrifon blaenorol hyn yn cynnwys amcangyfrif o angen presennol nas diwallwyd. Er y nodwyd bod hyn yn agwedd bwysig ar yr angen am dai ychwanegol, ni chafodd ei gynnwys yn y cyfrifiad cyffredinol terfynol.

Nid yw'r ffordd y cafodd yr amcangyfrifon blaenorol eu cyflwyno yn ei gwneud yn bosibl i'w cymharu'n uniongyrchol â'r amcangyfrifon newydd sydd fesul cyfnod o bum mlynedd.

Amcangyfrifodd prif amcangyfrif Holmans y byddai angen 8,700 o unedau'r flwyddyn dros y cyfnod o ugain mlynedd rhwng 2011 a 2031. Ar gyfer yr amcangyfrifon newydd a gyflwynir yn yr erthygl hon, nodir y bydd angen 5,700 o unedau'r flwyddyn (yn seiliedig ar yr amcangyfrif canolog) bob blwyddyn ar gyfartaledd dros y cyfnod o ugain mlynedd (2018-2038).

Mae ffigur Holman o 8,700 o dai bob blwyddyn ar gyfartaledd o fewn yr ystod o amcangyfrifon wedi'u diweddaru ar gyfer y pum mlynedd gyntaf yn unig (2018/19-2022/23) fel y dangosir yn siart 11. Caiff yr amcangyfrifon newydd eu cyflwyno yn y siart ar ffurf bariau ystod, gyda llinell lwyd yn dynodi'r amcangyfrif canolog.

**Siart 11: Yr Angen blynyddol cyfartalog am dai - cymhariaeth â ffigurau'r sefydliad polisi cyhoeddus i Gymru**




FfynonellauYr Angen a'r Galw am Dai yn y dyfodol yng Nghymru SPCG, Amcangyfrif LIC o'r Angen am Dai

## 3. Y camau nesaf

Mae'r erthygl hon wedi trafod canlyniadau lefel uchel yr angen cyffredinol am dai yng Nghymru, yn genedlaethol ac yn rhanbarthol. Bydd yr erthygl nesaf yn ystyried y galw am dai o ran y ddeiliadaeth fwyaf priodol ar gyfer yr aelwydydd hynny sydd angen tai ychwanegol. Felly, caiff yr amcangyfrifon o'r angen am dai eu rhannu yn ôl y deiliadaethau canlynol:

- Perchentyaeth
- Rhentu preifat
- Rhentu canolraddol
- Rhentu cymdeithasol

Mae angen nifer o newidynnau economaidd a thybiaethau ynghylch y farchnad dai ar gyfer y cam hwn ar y gwaith, a sut y byddant yn newid yn y dyfodol. Maent yn cynnwys:

- Prisiau tai
- Prisiau rhent
- Dosbarthiad incwm aelwydydd
- Tybiaethau ynghylch trothwyon fforddiadwyedd ar bob lefel o ddeiliadaeth

Caiff yr amcangyfrifon o'r angen am dai ychwanegol a rennir yn ôl deiliadaeth eu cyhoeddi mewn erthygl ystadegol yng ngwanwyn 2019.

# Atodiad A – Diffiniadau

## Teulu Cudd

Yng Nghyfrifiad 2011 diffiniwyd teulu cudd fel cwpwl neu deulu un rhiant, yn byw ar aelwyd aml-deulu, lle nad Person Cyswllt y Teulu yw Person Cyswllt y Cartref. Mae pob teulu sy'n byw ar aelwyd yn cynnwys Person Cyswllt y Teulu a nodir ar sail gweithgarwch economaidd a nodweddion oedran (rhieni unigol yw Person Cyswllt y Teulu yn awtomatig). Ar aelwyd un teulu Person Cyswllt y Teulu fydd Person Cyswllt y Cartref hefyd. Ar aelwydydd â mwy nag un teulu, dewisir Person Cyswllt y Cartref o blith Personau Cyswllt y Teulu yn seiliedig ar weithgarwch economaidd, oedran ac yna'r drefn ar ffurflen y cyfrifiad.

Bydd teuluoedd cudd yn cynnwys:

- oedolion ifanc sy'n byw gyda phartner a/neu blentyn/plant ar yr un aelwyd â'u rhieni
- cyplau hŷn sy'n byw gyda phlentyn sy'n oedolyn a'u teulu
- teuluoedd nad ydynt yn perthyn sy'n byw ar yr un aelwyd

Ni all person unigol fod yn deulu cudd; felly, ni fydd un rhiant oedrannus sy'n byw gyda'u plentyn sy'n oedolyn a'u teulu, na phlentyn sy'n oedolyn sy'n dychwelyd i fyw yng nghartref y teulu yn deulu cudd.

### Aelwydydd Gorlawn (safon ystafelloedd gwely)

Mae'r dosbarthiad Meddiannaeth yn mesur p'un a yw llety aelwyd yn orlawn neu wedi'i danfeddiannu (yn seiliedig ar nifer yr ystafelloedd gwely). Defnyddir oedrannau'r rheini sy'n byw ar yr aelwyd a'u perthynas â'i gilydd i nodi nifer yr ystafelloedd gwely sydd eu hangen, yn seiliedig ar fformiwla safonol. Tynnir nifer yr ystafelloedd gwely sydd eu hangen o nifer yr ystafelloedd gwely yn llety'r aelwyd er mwyn nodi'r dosbarthiad meddiannaeth. Mae dosbarthiad meddiannaeth o -1 yn awgrymu bod gan aelwyd un ystafell wely yn llai na'r hyn sydd ei angen, tra bod +1 yn awgrymu bod ganddi un ystafell wely yn fwy na'r gofyniad safonol.

Mae dosbarthiad meddiannaeth o -1 neu is yn dynodi aelwyd orlawn.

## Atodiad B – Awdurdodau Lleol

### Y gogledd

Ynys Môn

Gwynedd

Conwy

Sir Ddinbych

Sir y Fflint

Wrecsam

### Y canolbarth a'r de-orllewin

Powys

Ceredigion

Sir Benfro

Sir Gaerfyrddin

Abertawe

Castell-nedd Port Talbot

### Y de-ddwyrain

Pen-y-bont ar Ogwr

Bro Morgannwg

Caerdydd

Rhondda Cynon Taf

Merthyr Tudful

Caerffili

Blaenau Gwent

Torfaen

Sir Fynwy

Casnewydd

## Nodiadau ar y defnydd o erthyglau ystadegol

Yn gyffredinol, mae a wnelo erthyglau ystadegol â dadansoddiadau untro lle na fwriedir eu diweddaru, yn y byrdymor o leiaf, a'u diben yw sicrhau bod y fath ddadansoddiadau ar gael i gynulleidfa ehangach nag a fyddai'n wir fel arall. Fe'u defnyddir yn bennaf i gyhoeddi dadansoddiadau archwiliadol mewn rhyw ffordd, er enghraifft:

Cyflwyno cyfres newydd o ddata arbrofol;

Dadansoddiad rhannol o fater sy'n darparu man cychwyn defnyddiol i gyflawni rhagor o ymchwil ond sydd, serch hynny, yn ddadansoddiad defnyddiol yn ei rinwedd ei hun;

Tynnu sylw at ymchwil sydd wedi'i chynnal gan sefydliadau eraill, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru neu fel arall, lle mae'n ddefnyddiol tanlinellu'r casgliadau, neu adeiladu ar yr ymchwil ymhellach;

Dadansoddiad lle nad yw'r canlyniadau o ansawdd mor uchel â'r rhai yn ein datganiadau ystadegol a'n bwletinau arferol efallai, ond lle gellir dod i gasgliadau ystyrlon o hyd gan ddefnyddio'r canlyniadau.

Pan fo ansawdd yn broblem, gall hyn godi mewn un neu fwy o'r ffyrdd canlynol:

- ni ellir nodi'r cyfnod o amser a ddefnyddir yn gywir (a all ddigwydd pan ddefnyddir ffynhonnell weinyddol);
- ansawdd y ffynhonnell ddata neu'r data a ddefnyddir; neu
- rhesymau eraill a nodir.

Fodd bynnag, bydd lefel yr ansawdd yn golygu nad yw'n cael effaith sylweddol ar y casgliadau. Er enghraifft, efallai na fydd yr union gyfnod o amser yn ganolog i'r casgliadau y gellir eu llunio, neu drefn maint y canlyniadau, yn hytrach na'r union ganlyniadau, sydd o ddiddordeb i'r gynulleidfa.

Nid yw'r dadansoddiad a gyflwynir yn gyfystyr ag Ystadegyn Gwladol, ond gellir ei ddefnyddio gydag allbynnau Ystadegau Gwladol a bydd, serch hynny, wedi cael ei ystyried yn ofalus a'i archwilio'n fanwl cyn ei gyhoeddi. Bydd asesiad o gryfderau a gwendidau'r dadansoddiad wedi'i gynnwys yn yr erthygl, er enghraifft cymhariaeth â ffynonellau eraill, ynghyd â chanllawiau ar sut y gellir defnyddio'r dadansoddiad, a disgrifiad o'r fethodoleg sydd ar waith.

Mae erthyglau yn dilyn yr arferion rhyddhau a ddiffinnir yn y protocol arferion rhyddhau ac, felly, er enghraifft, fe'u cyhoeddir ar ddyddiad a bennir ymlaen llaw yn yr un ffordd ag allbynnau ystadegol eraill.

Mae symbolau gwerth coll a ddefnyddir yn yr erthygl yn dilyn y safonau a ddefnyddir mewn allbynnau ystadegol eraill, fel yr amlinellir isod.

.. Nid yw'r eitem o ddata ar gael

. Nid yw'r eitem o ddata yn gymwys

- Nid yw'r eitem o ddata yn cyfateb i sero'n union, ond fe'i hamcangyfrifwyd yn sero neu'n llai na hanner y digid terfynol a ddangosir

* Mae'r eitem o ddata yn ddatgelol neu nid yw'n ddigon cadarn i'w chyhoeddi

OGL

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0, oni nodir fel arall.